



Codi hyder yn sail
tystiolaeth ni
Building confidence in our
evidence base



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**ADRODDIAD CYFUNO TYSTIOLAETH
MEITHRIN GALLU CYMUNEDAU ARFORDIROL
AR GYFER IS-ADRAN Y MÔR A PHYSGODFEYDD LLYWODRAETH
CYMRU**

Dr Sophie Wynne-Jones ac Ann Humble
Yr Uned Tystiolaeth Strategol ar gyfer yr Amgylchedd a Materion
Gwledig.

Tachwedd 2022

TABL CYNNWYS

Tudalen 3	Crynodeb Gweithredol
Tudalen 6	Cyflwyniad
Tudalen 9	Cyngor ar gyfer Polisi y Môr a Physgodfeydd
Tudalen 16	Adolygiad o Dystiolaeth Eilaidd
Tudalen 21	Gweithdai Tystiolaeth Rhanddeiliaid

ADRODDIAD CYFUNO TYSTIOLAETH MEITHRIN GALLU CYMUNEDAU ARFORDIROL

AR GYFER IS-ADRAN Y MÔR A PHYSGODFEYDD LLYWODRAETH CYMRU

Dr Sophie Wynne-Jones ac Ann Humble: Yr Uned Tystiolaeth Strategol ar gyfer yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Tachwedd 2022

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn ceisio meithrin gallu ar draws cymunedau arfordirol i sicrhau canlyniadau ar gyfer twf cynaliadwy ac adfer natur (gweler tabl 1) yn unol ag ymrwymïadau Rhaglen Lywodraethu 2021-2025.

Twf cynaliadwy	Adfer natur
<i>Cefnogi camau i wella a galluogi...</i>	
<ul style="list-style-type: none">• dyframaethu cynaliadwy	<ul style="list-style-type: none">• mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur
<ul style="list-style-type: none">• cadwyni cyflenwi bwyd môr lleol	<ul style="list-style-type: none">• rheoli'r amgylchedd morol
<ul style="list-style-type: none">• twristiaeth a hamdden	<ul style="list-style-type: none">• carbon glas
<ul style="list-style-type: none">• cyflawni Amcanion Pysgodfeydd fel yr amlinellir yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd	<ul style="list-style-type: none">• dealltwriaeth y cyhoedd o faterion morol

Mae'r angen i feithrin gallu o fewn cymunedau arfordirol wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel elfen allweddol o raglen waith ehangach yr Adferiad Glas. Mae hyn wedi codi wrth ymateb i'r heriau amrywiol sy'n wynebu cymunedau arfordirol ledled Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys ymadawiad y DU â'r UE, effaith cyfyngiadau Covid-19 ac effeithiau parhaus yr argyfyngau hinsawdd a natur; yn ogystal ag ymateb i'r ymyleiddio a'r dirywiad hirdymor mewn rhai ardaloedd arfordirol.

Nodwyd sawl rhwystr sy'n effeithio ar allu cymunedau arfordirol, gan gynnwys y canlynol ond heb eu cyfyngu iddynt - diffyg cyllid hirdymor ar gyfer prosiectau; cyfathrebu gwael a theimlad nad oes unrhyw un yn gwrando arnynt; diffyg gwaddol neu weithgarwch dilynol ar ôl cwblhau prosiect; a phobl o fewn cymunedau arfordirol yn teimlo nad oes ganddynt yr wybodaeth na'r gallu i gyfrannu mewn perthynas â materion morol ac arfordirol.

Er mwyn cael dealltwriaeth well o'r rhwystrau hyn a rhwystrau ehangach sy'n cyfyngu ar gapasiti cymunedau arfordirol, a nodi'r ffordd orau o gefnogi feithrin gallu yn y gofod hwn, comisiynwyd yr Uned Tystiolaeth Strategol ar gyfer yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, i gynnal dau ymarfer casglu tystiolaeth i adolygu arfer orau, gan nodi beth sy'n gweithio a'r hyn sydd ei angen ar gymunedau

i'w galluogi i feithrin gallu i'r dyfodol. Bwriad y cyngor sy'n deillio o hynny yw llywio portffolio o weithgarwch y gallai'r llywodraeth ei ddatblygu yn y dyfodol, er enghraifft, yn lle Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

Yn gyntaf, cynhaliwyd adolygiad o dystiolaeth eilaidd, i gyfosod arfer orau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a meithrin gallu mewn cyd-destun morol ac arfordirol.

Yn ail, cynhaliwyd dau weithdy rhanddeiliaid ym mis Medi 2022 er mwyn clywed am brofiadau o brosiectau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru er mwyn i ni allu dogfennu gwersi allweddol mewn cyd-destun penodol i Gymru.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau allweddol o'r ddwy set o dystiolaeth wedi'u cyfod i ddarparu'r cyngor canlynol ar gyfer Is-adran y Môr a Physgodfeydd. Mae'r manylion llawn yn y prif adroddiad isod.

CYNGOR AR GYFER POLISI Y MÔR A PHYSGODFEYDD

- 1. Darparu Parhad** mewn gweithgareddau ar draws cymunedau arfordirol i dyfu a chynnal gallu yn yr ardaloedd hyn, gan gadw staff medrus a sicrhau ymdeimlad parhaus o ymrwymiad i gymunedau. Mae hyn yn gofyn am ystyried y dulliau ariannu a'r strwythurau cyflenwi a ddefnyddir, yn ogystal â mwy o flaengynllunio a thryloywder er mwyn galluogi cynllunio hirdymor.
- 2. Galluogi Cynaliadwyedd Ariannol** i leihau'r baich ar bwrs y wlad, cefnogi parhad o fewn cymunedau a sicrhau ffyniant. Gellir cael hyn drwy gefnogi darparu sgiliau busnes, annog rhwydweithio â'r sector busnes a chyllid i alluogi clystyrau busnes.
- 3. Gadael i'r Gymuned Arwain** i sicrhau bod gweithgareddau'n ystyrllon i gymunedau arfordirol ac yn ymateb i'w hanghenion. I wneud hyn, dylai cyllid gael ei deilwra i gymunedau, yn hytrach na sbarduno blaenoriaethau o'r brig i lawr. Mae cefnogaeth barhaus i hwyluswyr yn hanfodol i adeiladu'r cysylltiadau a'r mewnwediadau hyn. Gall galluogi diwylliant o wirfoddoli a chyfranogi sicrhau cyfraniad gweithredol hefyd.
- 4. Bod yn Gynhwysol** i fynd i'r afael â phryderon gan grwpiau a sectorau sy'n teimlo nad ydynt wedi cael eu cynnwys na'u cefnogi'n ddigonol gan fentrau blaenorol. Mae sicrhau bod cynrychiolaeth briodol gan bob grŵp, gwneud penderfyniadau'n ddemocrataidd a dosbarthu pŵer yn briodol yn hanfodol er mwyn cyflawni'r nod hwn. Mae hefyd angen gwell dealltwriaeth o'r ystod o randdeiliaid morol a'u blaenoriaethau amrywiol. Pan fo blaenoriaethau'n gwrthdaro, gall defnyddio offer a argymhellir er mwyn datblygu gweledigaethau a rennir i ddatrys tensiynau.
- 5. Defnyddio Dull 'Cydgysylltiedig'** i fynd i'r afael â heriau, gan weithio ar draws gofodau morol a daearol, ac ar draws ffiniau gwleidyddol. Dylid targedu

amcanion ar gyfer adfer natur a thwf cynaliadwy gyda'i gilydd, yn hytrach nag ar wahân neu mewn gwrthwynebiad. Dylai'r ffordd hon o weithio gael ei chefnogi gan brosesau a blaenoriaethau ariannu sydd wedi'u targedu'n briodol. Dylai rhwystrau sy'n annog meddwl mewn seilo gael eu lleihau ac, yn y pen draw, eu dileu.

- 6. Defnyddio'r Prosesau Cywir** i symleiddio a gwella gweinyddiaeth. Dylai fod mwy o dryloywder a blaengynllunio mewn perthynas â chynigion cyllid sydd i ddod. Mae angen i linellau cyfathrebu mwy agored i ddarparu arweiniad parhaus i ymgeiswyr. A byddai ystod o gynigion cyllid, yn amrywio o ran cwmpas a ffocws, yn cefnogi rhanddeiliaid yn well.
- 7. Monitro yn effeithiol** mewn modd sy'n gymesur ac wedi'i deilwra'n briodol. Mae angen i fesurau llwyddiant fod yn ystyrlon i gyfranogwyr a rhanddeiliaid prosiect. Gall mesur ansoddol gipio profiadau ac effeithiau personol yn fwy effeithiol. Dylid cefnogi monitro tymor hwy. Mae angen mwy o rannu dysgu rhwng prosiectau ledled Cymru.

CYFLWYNIAD

Mae Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn ceisio meithrin gallu ar draws cymunedau arfordirol i sicrhau canlyniadau ar gyfer twf cynaliadwy ac adfer natur (gweler tabl 1) yn unol ag ymrwymïadau Rhaglen Lywodraethu 2021-2025. Nod y meithrin gallu hwn yw galluogi'r cyhoedd i chwarae mwy o ran mewn cadwraeth a llywodraethu morol, lefelau gwell o 'lythrennedd morol' a mwy o gydweithio ym maes cynllunio morol. Byddai feithrin gallu hefyd yn cynyddu mentrau busnes cynaliadwy ar draws cymunedau arfordirol, o bysgodfeydd i dwristiaeth, yn ogystal â mentrau sy'n sicrhau camau i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Drwy feithrin gallu, rydym yn cyfeirio at y sgiliau, y cysylltiadau a'r ffactorau eraill sy'n sail iddynt sy'n galluogi pobl i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Twf cynaliadwy	Adfer natur
<i>Cefnogi camau i wella a galluogi...</i>	
<ul style="list-style-type: none">• dyframaethu cynaliadwy	<ul style="list-style-type: none">• mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur
<ul style="list-style-type: none">• cadwyni cyflenwi bwyd môr lleol	<ul style="list-style-type: none">• rheoli'r amgylchedd morol
<ul style="list-style-type: none">• twristiaeth a hamdden	<ul style="list-style-type: none">• carbon glas
<ul style="list-style-type: none">• cyflawni Amcanion Pysgodfeydd fel yr amlinellir yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd	<ul style="list-style-type: none">• dealltwriaeth y cyhoedd o faterion morol

Tabl 1: Canlyniadau ar gyfer twf cynaliadwy ac adfer natur.

Mae'r angen i feithrin gallu o fewn cymunedau arfordirol wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel elfen allweddol o raglen waith ehangach yr Adferiad Glas. Mae hyn wedi codi wrth ymateb i'r heriau amrywiol sy'n wynebu cymunedau arfordirol ledled Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys ymadawïad y DU â'r UE, effaith cyfyngiadau Covid-19 ac effeithiau parhaus yr argyfyngau hinsawdd a natur; yn ogystal ag ymateb i'r ymyleiddio a'r dirywiad hirdymor mewn rhai ardaloedd arfordirol.

Nodwyd sawl rhwystr sy'n effeithio ar gapasiti cymunedau arfordirol, gan gynnwys diffyg cyllid hirdymor ar gyfer prosiectau; cyfathrebu gwael a theimlad nad oes unrhyw un yn gwrando arnynt; diffyg gwaddol neu weithgarwch dilynol ar ôl cwblhau prosiect; a phobl o fewn cymunedau arfordirol yn teimlo nad oes ganddynt yr wybodaeth na'r gallu i gyfrannu mewn perthynas â materion morol ac arfordirol.

Er mwyn cael dealltwriaeth well o'r rhwystrau hyn sy'n cyfyngu ar gapasiti cymunedau arfordirol, a nodi'r ffordd orau o gefnogi feithrin gallu yn y gofod hwn, comisiynwyd yr Uned Tystiolaeth Strategol ar gyfer yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, i gynnal dau ymarfer casglu tystiolaeth i adolygu arfer orau, gan nodi beth sy'n gweithio a'r hyn sydd ei angen ar gymunedau i'w galluogi i feithrin gallu i'r dyfodol. Bwriad y cyngor sy'n deillio o hynny yw llywio portffolio o

weithgarwch y gallai'r llywodraeth ei ddatblygu yn y dyfodol, er enghraifft, yn lle Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

Yn gyntaf, cynhaliwyd **adolygiad o dystiolaeth eilaidd** o ddeunydd cyhoeddedig sy'n bodoli eisoes, i gyfod arfer orau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a meithrin gallu mewn cyd-destun morol ac arfordirol. Defnyddiwyd methodoleg adolygu llenyddiaeth cyflym, gan ganolbwyntio ar lenyddiaeth academiaidd gyhoeddedig a gwerthusiadau polisi ac ymarferwyr. Rhoddwyd sylw i dri maes cwestiynu allweddol:

- I. Beth yw'r ffordd orau o gefnogi datblygiad gallu cymunedau arfordirol drwy weithgareddau hwyluso ac ymgysylltu ar lefel gymunedol? Sut y gellir mynd i'r afael â rhwystrau a gwaharddiadau i sicrhau cyfle cyfartal i ddatblygu'r gallu hwn?
- II. Pa dystiolaeth sy'n bodoli mewn perthynas â'r seilwaith a'r gallu presennol, yng Nghymru, i gefnogi cymunedau i gyflawni'r canlyniadau a'r gallu a ddymunir? Pa anghenion/cyfyngiadau ac arfer orau sydd i'w gweld?
- III. Pa dulliau sydd fwyaf effeithiol o ran cefnogi cydweithio ac ystyried blaenoriaethau amrywiol? Sut y gellir defnyddio'r rhain i leihau gwrthdaro a chefnogi cydweithrediad rhwng rhanddeiliaid arfordirol ledled Cymru?

Gwnaed y gwaith hwn gan Dr Emma McKinley, o Brifysgol Caerdydd, arbenigwr blaenllaw ym maes gwyddorau cymdeithasol morol ac arfordirol, ac fe'i hadolygwyd gan Uned Tystiolaeth Strategol Llywodraeth Cymru a Dr Natalie Hold, o Brifysgol Bangor, arbenigwr blaenllaw arall yn y maes hwn.

Yn ail, cynhaliwyd dau **weithdy rhanddeiliaid** ym mis Medi 2022 er mwyn clywed am brofiadau o brosiectau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru er mwyn i ni allu dogfennu gwersi allweddol yng nghyd-destun Cymru, o ran llwyddiannau h.y. 'beth sy'n gweithio'n dda' ond hefyd i ddeall yr anghenion ychwanegol a allai godi yn y dyfodol ac unrhyw gyfyngiadau dulliau presennol/blaenorol. Gwnaeth cyfanswm o 29 o randdeiliaid morol ac arfordirol o sefydliadau ledled Cymru gymryd rhan.

Manylir ar y canfyddiadau allweddol o'r ddau ddarn o waith ar wahân isod, ac maent wedi'u dwyn ynghyd mewn cyfres o argymhellion cyffredinol ar gyfer Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru. Mae'r 'Cyngor ar gyfer Polisi y Môr a Physgodfeydd' hwn yn cynnwys blaenoriaethau sy'n deillio o'r ddau ddarn ymchwil. Ar y cyfan, mae'r pwyntiau a wnaed yn adlewyrchu consensws ar draws y ddau ddarn o ymchwil sy'n adlewyrchu canfyddiadau cyson yn y llenyddiaeth a phrofiad byw rhanddeiliaid. Fodd bynnag, nid yw rhai pwyntiau allweddol yn cael eu hailadrodd yn y ddwy set o adroddiadau. Gwelir y gwahaniaethau hyn gan nad oedd y gweithdai yn gallu casglu sbectwm llawn o brofiad rhanddeiliaid, felly mae'r adolygiad o lenyddiaeth wedi gallu cynnwys set ehangach o leisiau a blaenoriaethau. Mae'n wir hefyd nad yw rhai elfennau o brofiad byw rhanddeiliaid wedi'u hadlewyrchu'n ddigonol yn y llenyddiaeth gyhoeddedig. Am y rhesymau hyn, gwnaethom ymgymryd â'r ddau ymarfer er mwyn cael set ehangach o fewnwelediadau nag y byddem wedi'i chael drwy un dull yn unig. Mae'r dull hwn o 'driongli' ymchwil yn ffordd bwysig o gyflwyno tystiolaeth gadarn a chynhwysol i lywio gwaith llunio polisi'r llywodraeth.

Ar ôl y 'Cyngor ar gyfer Polisi y Môr a Physgodfeydd' cyfunol, manylir ar ganfyddiadau allweddol o'r ddau ddarn o ymchwil ar wahân i ddangos ffynhonnell wreiddiol gwahanol ddarnau o gyngor a darparu tryloywder o ran sut mae'r argymhellion hyn wedi'u gwneud. Yn nodedig, mae canfyddiadau'r gweithdy rhanddeiliaid wedi'u cyfosod i gynhyrchu set o ganllawiau sydd wedi'u teilwra'n benodol i ddarparu brosiectau. Felly hyn, gall cymunedau a sefydliadau partner weld beth sydd wedi gweithio'n dda o'r blaen.

Darperir manylder llawn y dystiolaeth sy'n sail i'r ddau ymarfer ymchwil mewn adroddiadau ar wahân, sy'n rhoi manylion pellach am y methodolegau a ddefnyddiwyd ac sy'n dangos y dystiolaeth yn llawn.

CYNGOR AR GYFER POLISI Y MÔR A PHYSGODFEYDD

Gan ddwyn ynghyd ganfyddiadau allweddol y broses o gyfuno tystiolaeth eilaidd a'r gweithdai rhanddeiliaid, cynigir y pwyntiau cyngor canlynol i Is-adran y Môr a Physgodfeydd o fewn Llywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o ddatblygu cymorth i gymunedau arfordirol yn y dyfodol. Mae'r cyngor hwn yn eang ac yn cwmpasu mwy o bwyntiau nag y gellid eu gweithredu mewn unrhyw un gronfa neu fenter. Y sail resymegol yw llywio portffolio o weithgareddau y gallai'r llywodraeth ei ddatblygu yn y dyfodol yn lle Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Mae'r pwyntiau wedi'u rhifo i gynorthwyo'r darlennydd ond nid ydynt yn nhrefn blaenoriaeth.

1. Darparu Parhad

Mae cefnogi parhad gweithgareddau mewn cymunedau arfordirol yn allweddol i dyfu a chynnal gallu yn yr ardaloedd hyn. Mae angen cadw staff medrus a phrofiadol i ymgymryd â gwaith hwyluso ac ymgysylltu â'r gymuned, cynnal cysylltiadau da a meithrin ymddiriedaeth gyda phobl yn y lleoedd hynny. Mae angen i randdeiliaid hefyd deimlo ymdeimlad o ymrwymiad hirdymor, yn hytrach nag ymgysylltu ad hoc, i fod eisiau cymryd rhan. Mae nifer o opsiynau ar gyfer sut y gall llywodraeth gefnogi parhad:

- Yr opsiwn amlycaf yw cyllid craidd i sicrhau isafswm staff mewn sefydliadau cyflenwi allweddol, a all wedyn gael ei gynyddu a'i dargedu at wahanol brosiectau drwy gronfeydd tymor byrrach.
- Lle nad oes cyllideb ar gyfer cyllid craidd, mae sicrhau bod strwythurau ar waith i gynnal parhad rhwng prosiectau byrdymor yn hanfodol. Mae enghreifftiau da yn hyn o beth yn cynnwys partneriaethau arfordirol (e.e. Partneriaeth Aber Afon Hafren neu Fforwm Arfordir Penfro), byrddau rheoli neu 'Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CIC)'. Dylid cefnogi prosiectau i sefydlu'r strwythurau hyn a rhoi cyngor ar sut i sicrhau presenoldeb parhaus y tu hwnt i oes gweithgareddau penodol.
- Byddai darpar ymgeiswyr am gyllid hefyd yn elwa ar gael mwy o rybudd am gyfleoedd cyllid, a therfynau amser cysylltiedig, i'w galluogi i gynllunio ymlaen llaw ac osgoi bwloch yn eu gweithgareddau. Byddai hyn yn golygu bod angen i'r llywodraeth ymrwymo i gynllun ariannu hirdymor sy'n cael ei rannu â'r sector.
- O ran meini prawf cyllid, mae cefnogi gweithgareddau sydd bendant yn darparu parhad a gwaddol o weithgareddau blaenorol yn bwysig. Yma, gellir gwobrwyo parhad hefyd drwy gefnogi gweithgareddau i gyflwyno arfer da yn ehangach, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygiadau arloesol newydd yn unig.
- Gellir cefnogi parhad hefyd drwy annog cynaliadwyedd ariannol fel y trafodir isod.

2. Galluogi Cynaliadwyedd Ariannol

Mae cynaliadwyedd ariannol mentrau cymunedau arfordirol yn ddymunol am nifer o resymau. Mae'n galluogi parhad gweithgareddau allweddol a darpariaeth gwasanaethau, a allai fod mewn perygl fel arall oherwydd cronfeydd sydd ar gael am amser cyfyngedig yn unig. Mae'n cael gwared ar ddibyniaeth ar bwrs y wlad ar gyfer darpariaeth hirdymor. Gall hefyd sicrhau bywoliaeth yr unigolion hynny sy'n ymwneud â'r fenter benodol, a chreu lluosyddion gyda busnesau eraill, gan ddarparu ffyniant a chynaliadwyedd cymdeithasol ehangach o fewn cymunedau. Er bod angen i ni gydnabod bod rhai amcanion ar gyfer adfer natur yn anoddach eu cyflawni mewn ffyrdd hyfyw yn ariannol, ac felly y bydd angen gwariant cyhoeddus parhaus arnynt, mae amryw o ffyrdd y gall y llywodraeth gefnogi cynaliadwyedd ariannol:

- Yn gyntaf, drwy annog defnyddio modelau busnes fel cyfrwng darparu. Gall hyn gynnwys defnyddio strwythurau megis Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (a nodir uchod) a mentrau cymdeithasol, annog cydweithio â/rhwng busnesau lleol presennol, neu gefnogi sefydlu mentrau newydd i ddiwallu anghenion allweddol.
- Mae darparu cyngor a chreu cyfleoedd i rwydweithio a datblygu clystyrau gyda chynrychiolwyr busnes yn bwysig i gychwyn y dulliau hyn.
- Mae angen teilwra cyllid yn briodol, gyda busnesau newydd yn elwa ar gronfeydd 'dechrau busnes' neu 'sbarduno' ar raddfa lai, a allai gynnwys elfennau o wariant cyfalaf. Mae prosesau ymgeisio syml sy'n adlewyrchu graddfa cronfeydd o'r fath yn bwysig.
- Mae cefnogi cydweithio a rhwydweithio rhwng busnesau presennol yn bwysig, gyda chyllid i hwyluso datblygu clystyrau busnes yn arbennig o fuddiol; gallai hyn gynnwys rhai cronfeydd cyfalaf ar gyfer cyfleusterau, offer neu seilwaith a rennir, yn ogystal â chyllid refeniw i gefnogi gweithgareddau rhwydweithio.
- Mae gweithio ar draws cadwyni cyflenwi cyfan a gwella cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr/pysgotwyr, prosesau, manwerthwyr/cyflenwyr a defnyddwyr yn flaenoriaeth i glystyrau busnes o'r fath, yn ogystal â sylweddoli sut mae cadwyni cyflenwi wedi'u gwreiddio mewn cymunedau a'r ffaith bod rôl rhai pobl (e.e. menywod) yn cael ei thanbriso.
- Mae annog gwireddu synergeddau rhwng busnesau i sicrhau twf ac adfer natur ar yr un pryd yn flaenoriaeth, er enghraifft, dwyn ynghyd fentrau sy'n canolbwyntio ar fywyd gwylt a bwyd môr.
- Annog datblygu sgiliau fel bod cymunedau lleol yn gallu cael budd i'r dyfodol. Mae angen hyfforddiant sgiliau i gefnogi arallgyfeirio, ychwanegu gwerth a gwella marchnata ar gyfer busnesau presennol hefyd. Felly, dylid blaenoriaethu prosiectau sy'n cyflawni'r nodau hyn i gael cyllid.

3. Gadael i'r Gymuned Arwain

Os ydym am i bobl gymryd rhan, mae angen i weithgareddau fod yn ystyrllon i gymunedau arfordirol ac ymateb i'w hanghenion. Mae angen i bobl fod yn hyderus y bydd prosiect yn cyflawni ar eu cyfer nhw ac nad yw'n cael ei sbarduno gan agendâu eraill nad ydynt yn teimlo cysylltiad â nhw. Mae ymgysylltu llwyddiannus yn hanfodol i feithrin gallu ond, yn y pen draw, yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni yw nid

ymgysylltu fel gweithgaredd a wneir gan asiantau allanol, ond ymdrech gymunedol i sbarduno mentrau y maent am eu gweld yn digwydd. Mae hyn hefyd yn alinio â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Er mwyn galluogi hyn, dylai'r llywodraeth:

- Sicrhau y gall amcanion cyllid fod yn ddigon hyblyg i gael eu teilwra i gymunedau a pheidio â gwrthio dull o'r brig i lawr o ran cyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth.
- Sicrhau bod amcanion cyllid yn cael eu llunio mewn ymateb i ddeialog gyda chymunedau ynglŷn â pha heriau y maent yn teimlo eu bod yn eu hwynebu.
- Darparu cyllid i hwyluswyr wneud y cysylltiadau rhwng amcanion strategol ar lefel genedlaethol a buddiannau a phryderon lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod modd gwneud y cysylltiad hanfodol rhwng gwahanol raddfeydd a blaenoriaethau.
- Rhoi arian i hwyluswyr weithio gyda chymunedau dros y tymor hir i ddeall eu hanghenion, ac ennill ymddiriedaeth fel bod pobl yn fodlon cymryd rhan mewn gwahanol fentrau.
- Cynnig cymorth i annog diwylliant ehangach o wirfoddoli a chyfranogiad cymunedol, gan weithio gyda busnesau a chyflogwyr o bosibl i sicrhau bod gan bobl y gallu a'r cyfle i gymryd mwy o ran a meithrin gallu yn eu hardaloedd.

4. Bod yn Gynhwysol

Mae angen dull cynhwysol er mwyn meithrin gallu cymunedol. At hynny, mae cydraddoldeb a chydlyniad yn ddau o nodau canolog Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Un mater allweddol mewn cymunedau arfordirol yw bod grwpiau a sectorau penodol yn teimlo nad ydynt wedi cael eu cynnwys na'u cefnogi'n ddigonol gan fentrau blaenorol. Er enghraifft, mae angen i ni sicrhau bod holl ystod ddemograffig cymunedau arfordirol yn cael ei chynrychioli, gan gynnwys pobl ifanc a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae angen i ni sicrhau bod diwydiannau allweddol, megis pysgota a dyframaethu, a'u cymunedau cysylltiedig yn cael eu cefnogi a'u cynnwys yn ddigonol. Nid yw'n anghyffredin i gymunedau gynnwys buddiannau amrywiol sydd weithiau'n gwrthdaro. Felly, mae camau i gefnogi cydweithio a datblygu set gyffredin o flaenoriaethau yn allweddol. Gall y llywodraeth gefnogi'r gofynion hyn am gynhwysoldeb yn y ffyrdd canlynol:

- Cefnogi mapio cynhwysfawr o randdeiliaid cymunedau arfordirol, er enghraifft, drwy Gyfeiriadur Arfordirol wedi'i ddiweddarau, fel bod mentrau'n cychwyn gyda dealltwriaeth lawn o bwy yw'r gymuned, a sut y gallent gymryd rhan. Gall hyn gynnwys pobl i fyny'r afon ac ar y tir, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u lleoli'n ddaearyddol mewn mannau arfordirol.
- Mae gan wahanol grwpiau ac unigolion werthoedd gwahanol mewn perthynas ag amgylcheddau morol ac arfordirol. Rhaid sicrhau bod amcanion cyllid yn agored ac yn gynhwysol i'r gwerthoedd gwahanol hyn a'r profiad byw cysylltiedig.

- Blaenoriaethu cyllid ar gyfer prosiectau sy'n arddangos dull tryloyw, democrataidd a chynhwysol o wneud penderfyniadau sy'n galluogi cyfranogiad gan amrywiaeth eang o randdeiliaid a phwerau gwneud penderfyniadau sydd wedi'u dosbarthu'n gyfartal.
- Blaenoriaethu cyllid ar gyfer prosiectau lle mae anghenion a chyfranogiad trawstoriad eang o ddemograffeg yn cael eu cynrychioli'n glir, ac yn enwedig lle mae grwpiau a oedd ar y cyrion yn flaenorol yn cymryd rhan mewn ffordd ystyrllon.
- Mae monitro cynhwysiant a chyfranogiad yn y prosiect yn ffordd bwysig o sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu cyflawni, ond mae angen i'r gwaith monitro ddefnyddio dull sensitif nad yw'n fusnesgar nac yn gofyn gormod gan y rhai sy'n cymryd rhan. Er enghraifft, dylai pobl allu disgrifio eu cefndiroedd mewn ffordd sy'n briodol iddynt.
- Rhannu arferion da ar adnoddau ymgysylltu â'r gymuned sy'n galluogi datrys gwrthdaro a datblygu gweledigaethau cyffredin. Er enghraifft, defnyddio 'Llais Cymunedol', 'Mapio Cyfranogol', 'Gemau Difrifol' neu atebion creadigol a chelfyddydol i ddeall gwahanol safbwyntiau a blaenoriaethau ac annog gweithio ar y cyd i ddatblygu atebion cyffredin.
- Blaenoriaethu cyllid ar gyfer prosiectau sy'n defnyddio technegau o'r fath ar gyfer datblygu gweledigaethau cynhwysol cyffredin.
- Gweithredu i leddfu'r pwysau ar wahanol randdeiliaid morol ac arfordirol sy'n gweithredu fel rhwystr i'w cyfranogiad mewn prosiectau. Er enghraifft, mae pysgotwyr yn wynebu pwysau nodedig ar eu bywoliaeth sy'n rhwystro eu gallu i gyfrannu cymaint ag yr hoffent fel arall mewn gweithgareddau i gefnogi adfer natur. Gallai cymorth i alluogi pysgotwyr i weithio gyda nodau cadwraeth helpu i wireddu cyfuniad o amcanion.

5. Defnyddio Dull 'Cydgysylltiedig'

Mae angen dull cydgysylltiedig er mwyn mynd i'r afael â heriau mewn mannau arfordirol a morol. Mae angen i ni weithio ar draws amgylcheddau daearol a morol, gan ddefnyddio dull dalgylch cyfan mewn llawer o achosion, er mwyn adfer natur yn llawn yn yr amgylchedd arfordirol a morol a sicrhau sylfaen adnoddau wydn ar gyfer twf cynaliadwy. Mae'n bwysig hefyd gweithio ar draws ffiniau gwleidyddol gweinyddol, gan gynnwys ffiniau sirol a chenedlaethol, fel bod problemau'n cael sylw ar raddfa briodol i sicrhau atebion. Ar y cyfan, o ystyried amcanion ar gyfer adfer natur a thwf cynaliadwy, mae'n hanfodol nad yw mentrau'n gweithio'n ynysig nac yn erbyn cyflawni'r ddau nod gyda'i gilydd, fel sydd wedi digwydd yn aml yn y gorffennol. I gefnogi'r dull integredig hwn, dylai'r llywodraeth:

- Sicrhau nad oes gwaharddiadau a osodir gan ofynion cyllid sy'n gorfodi mentrau i weithio ar raddfa fwy cyfyngedig, nad yw'n mynd i'r afael â heriau mewn modd cydgysylltiedig e.e. wedi'u cyfyngu i weithio o fewn ffin sirol neu genedlaethol.
- Blaenoriaethu cyllid ar gyfer prosiectau sy'n gweithio ar draws pobl a gofodau daearol a morol, a/neu ddefnyddio dull dalgylch cyfan i fynd i'r afael â heriau.

- Rhoi cymorth i rannu dysgu o brosiectau sy'n defnyddio dull integredig, gan ymgorffori elfennau daearol a morol, gan alluogi cyflwyno arferion da i wahanol leoliadau a chyd-destunau.
- Blaenoriaethu cyllid ar gyfer mentrau sy'n dwyn ynghyd amcanion ar gyfer adfer natur a thwf cynaliadwy, yn hytrach na'u hystyried yn nodau ar wahân.
- Sicrhau nad yw prosiectau sy'n cyflawni nodau ar gyfer adfer natur neu dwf cynaliadwy yn gwneud hynny mewn modd sy'n arwain at anfanteision ar gyfer y nodau allweddol eraill h.y. yn ôl ei ddiffiniad, ni ddylai twf cynaliadwy arwain at anfanteision i'r amgylchedd, ac ni ddylai adfer natur arwain at anfanteision economaidd i gymunedau.
- Cefnogi addysg a chyfathrebu ar gyfer defnyddwyr morol (gan gynnwys y cyhoedd) a busnesau i wella llythrennedd morol a sicrhau bod pobl yn gweithredu mewn ffordd sy'n galluogi adfer natur; er enghraifft, drwy beidio â pheri risg i fywyd gwyllt.
- Ystyried cymorth penodol i ddiwydiannau'r môr i'w galluogi i ymwneud ag adfer natur lle mae anfanteision sylweddol i fywoliaeth sy'n eu hatal rhag gwneud hynny fel arall.
- Annog datblygwyr i ddyrannu arian ar gyfer adfer natur a gweithio gyda chymunedau arfordirol i gyflawni'r nodau hyn e.e. drwy well meini prawf cynaliadwyedd ar gyfer mesurau lliniaru Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a seilwaith ar y môr.

6. Defnyddio'r Prosesau Cywir

Mae rhanddeiliaid sy'n rhan o brosiectau cymunedau arfordirol yn aml yn cwyno y gallai'r cymorth a'r arian y maent yn ceisio ei gael fod wedi'i ddylunio'n well a bod angen i'r prosesau cysylltiedig gael eu mireinio. Bydd unrhyw gynnydd o gymorth gan y llywodraeth yn gofyn am rywfaint o lywodraethu, yn enwedig pan fydd yn cynnwys cyfraniad ariannol. Er hynny, mae yna gais y gallai gweinyddiaeth fod yn symlach ac y gallai rhai meysydd allweddol gael eu gwella. Gallai'r awgrymiadau canlynol helpu'r llywodraeth i gyflawni'r nodau hyn:

- Mwy o dryloywder ar ffenestri cyllid y dyfodol a'r manylebau cysylltiedig.
- Gallai gwybodaeth am argaeledd cyllid yn y dyfodol fod yn rhan o ymarfer cynllunio gofodol hirdymor y mae rhanddeiliaid yn ymwneud ag ef, er mwyn nodi blaenoriaethau ar draws Cymru a galluogi tryloywder ar waith sy'n cael ei wneud.
- Mae angen amserlenni priodol i gwblhau ceisiadau am gyllid, yn berthynol i faint o arian sydd ar gael, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ariannu ar gael i fwy o sefydliadau a grwpiau ledled Cymru.
- Dylai cymhlethdod y broses ymgeisio adlewyrchu lefel y cyllid sydd ar gael, gyda rhai potiau cyllid llai o faint a syml iawn, i ddenu ceisiadau prosiect ar draws ystod o raddfeydd.
- Byddai rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi cyfathrebu mwy uniongyrchol gyda chyllidwyr/y llywodraeth drwy brosesau ymgeisio a chyflawni. Mae pryder bod

y cyfathrebu i gyd i un cyfeiriad, ac mae angen i randdeiliaid allu gofyn cwestiynau a chael arweiniad parhaus.

- Byddai digwyddiadau cyhoeddus, er enghraifft, 'Sioe Forol Frenhinol Cymru', yn creu fforymau ar gyfer mwy o ddeialog rhwng rhanddeiliaid a'r llywodraeth i sicrhau y gellir cyfathrebu anghenion y ddwy ochr a bod pawb yn deall y cyfleoedd sydd ar gael.

7. Monitro yn effeithiol

Mae monitro yn broses allweddol i'w gwneud yn iawn. Mae'r Llywodraeth eisiau gwybod pa fesurau o lwyddiant sydd eu hangen wrth symud ymlaen. Er bod rhanddeiliaid eisiau sicrhau bod y gofyniad arnynt yn gymesur ac wedi'i deilwra'n briodol i ddarparu gwybodaeth ystyrlon, nid yn unig ar gyfer gofynion gwerthuso cyllidwyr, ond hefyd er mwyn i'r cyfranogwyr allu dysgu a gwella effaith y gwaith y maent yn ei wneud. Gall y blaenoriaethau canlynol lywio pa ofynion sydd gan y llywodraeth ar gyfer monitro wrth symud ymlaen:

- Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn aml yn rhoi darlun cyfyngedig iawn o'r effaith go iawn mae mentrau'n ei chael. Felly, gofynnwch am fesurau llwyddiant ansoddol, yn hytrach na mesurau llwyddiant meintiol yn unig. Mae hyn yn golygu gofyn i brosiectau ddangos tystiolaeth o brofiad pobl o'r gweithgareddau roeddent yn ymwneud â nhw a'u barn arnynt, a'r gwahaniaeth y mae eu cyfranogiad wedi'i wneud iddynt.
- Ni ddylai monitro fod yn fusnesgar neu'n annymunol i gyfranogwyr, neu gallai dynnu oddi ar y gweithgareddau a'r cyfleoedd ehangach sydd ar gael. Dylai gwaith monitro ganolbwyntio ar bobl, bod yn ystyrlon i'r rhai sy'n adrodd ac, os yw'n bosibl, dylai fod yn hwyl! Mae straeon personol a dulliau creadigol, a gweledol yn aml, yn ddull pwysig yma, er enghraifft, defnyddio delweddu a ffotograffiaeth.
- Mae effaith gwahanol weithgareddau yn aml yn parhau i'r tymor hwy unwaith y bydd cyllid prosiect wedi dod i ben. Darparu cyllideb ar gyfer monitro tymor hwy i gofnodi'r effeithiau hyn.
- Sicrhau bod gwaith monitro yn ddefnyddiol i gymunedau sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau. Ystyried sut y gall eu helpu i ddysgu a gwella'r hyn y maent yn ei wneud. Annog adrodd am achosion lle mae monitro wedi arwain at newid.
- Sicrhau bod prosiectau'n gallu mentro a rhoi cynnig ar bethau newydd. Peidio â chosbi prosiectau nad ydynt yn bodloni eu holl amcanion allweddol os gellir dangos tystiolaeth o arbrofi a dysgu clir.
- Sicrhau gwerthusiadau cadarn o weithgareddau o'r gorffennol a gweithgareddau parhaus o dan y Partneriaethau Arfordirol, Partneriaethau Natur Lleol a Grwpiau Gweithredu Pysgodfeydd Lleol i lywio gweithgareddau yn y dyfodol.
- Galluogi rhannu dysgu rhwng gwahanol brosiectau a mentrau. Mae darparu cymorth o ran adnoddau a gweinyddiaeth i rannu gwerthusiadau ar blatfform a rennir a chefnogi gweithgareddau rhwydweithio i drafod dysgu ar lafar yn

ffyrdd allweddol y gellir sicrhau manteision ledled Cymru o ymdrechion monitro.

- Blaenoriaethu cyllid ar gyfer prosiectau sy'n dangos tystiolaeth o ddysgu clir o brosiectau eraill ac ymgysylltiad â'r dysgu ehangach, unwaith y bydd cymorth wedi'i roi ar waith i alluogi hyn.
- Defnyddio'r canllawiau ar yr hyn sy'n gwneud prosiect llwyddiannus, a amlinellir yn yr adroddiad hwn, i bennu pa fesurau llwyddiant sy'n bwysig. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau o lefel y parhad a sicrhawyd; graddau'r cynaliadwyedd ariannol a gafwyd; i ba raddau mae mentrau cael eu harwain gan y gymuned yng ngwir ystyr y gair; a graddau'r cynwysoldeb a gyflawnwyd.

ADOLYGIAD O DYSTIOLAETH EILAIDD

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Drwy broses adolygu llenyddiaeth gyflym, archwiliwyd pynciau yn ymwneud â meithrin gallu cymunedau arfordirol, gan ddwyn ynghyd dystiolaeth ynghylch y canlynol: pwysigrwydd cyd-ddatblygu ac ymgysylltu â'r gymuned; rôl llythrennedd morol; rôl strwythurau partneriaeth presennol yn awr ac yn y dyfodol; y potensial ar gyfer cydweithio i hwyluso ffurfio clystyrau morwrol ledled Cymru i gefnogi twf economaidd cynaliadwy ac adfer natur; a'r heriau ariannu. Cyflwynir astudiaethau achos o waith sy'n bodoli eisoes ar y pynciau hyn yn yr adroddiad llawn (a gyhoeddir ar wahân) gan dynnu sylw at enghreifftiau o ble mae pethau wedi gweithio'n dda a ble y gall gwersi gael eu dysgu a'u rhoi ar waith yng Nghymru.

Mae canfyddiadau'n dangos, o ystyried cymhlethdod materion arfordirol a'r ystod eang o ddefnyddwyr a rhanddeiliaid arfordirol y mae angen eu hystyried, dylid disgwyl y gellid cael rhyw lefel o wrthdaro ac angen i drafod cyfaddawdau ynghylch gofod ac adnoddau morol ac arfordirol. Mae Tabl 2 isod yn cyflwyno crynodeb o rai o'r dulliau a ddefnyddir yn y llenyddiaeth i fynd i'r afael â gwrthdaro a meithrin cydweithio rhwng rhanddeiliaid lluosog. Nid yw cymunedau arfordirol ledled Cymru yn unffurf. Er y gellir nodi tebygrwydd a theipoleg, bydd gan bob cymuned ei nodweddion a'i hanghenion penodol ei hun, sy'n golygu na fydd unrhyw un dull yn gweithio i bob cymuned – felly, bydd angen i'r dulliau a ddefnyddir fod wedi'u harwain gan y gymuned ac ymateb i anghenion a blaenoriaethau cymunedol. Ceir rhagor o fanylion am y methodolegau hyn yn yr adroddiad llawn (a gyhoeddir ar wahân).

Methodolegau posibl ar gyfer datrys gwrthdaro ac ymgysylltu â'r gymuned
Ymchwiliad gwerthfawrogol
Datblygu cymunedol seiliedig ar asedau
Mapio cyfranogol
Dull Llais y Gymuned
Gweithdai trafod
Grwpiau ffocws a chyfarfodydd wedi'u hwyluso
Datblygu senarios
Mapio rhanddeiliaid a Dadansoddiad Rhwydwaith Rhanddeiliaid
Ymgynghoriadau cymunedol
Digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol agored

Tabl 2: Crynodeb o ddulliau allweddol i fynd i'r afael â gwrthdaro a meithrin cydweithio mewn cymunedau.

YSTYRIAETHAU YN Y DYFODOL

Ar y cyfan, mae'r adolygiad hwn yn datgelu nifer o bwyntiau allweddol, o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes, y dylid eu hystyried ar gyfer gwaith ar meithrin gallu cymunedau arfordirol yn y dyfodol yng Nghymru, a gyflwynir isod. Nid yw'r rhain o reidrwydd yn cael eu trafod mewn unrhyw drefn blaenoriaeth; fodd bynnag, dylid ystyried pob un ohonynt wrth gynllunio mentrau yn y dyfodol.

Datblygu Cymunedau Arfordirol a Gwella Llythrennedd Morol

- Er mwyn i fentrau meithrin gallu cymunedau arfordirol fod yn llwyddiannus, **mae angen deall a mapio cymunedau arfordirol Cymru** fel y gellir ystyried gwerthoedd a lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol gynt, yn y materion sy'n wynebu arfordiroedd a moroedd Cymru.
- Mae meithrin gallu a meithrin ymgysylltiad â'r gymuned yn gofyn am lawer o adnoddau ac amser – **dylid dyrannu cyllid yn y dyfodol i feithrin cysylltiadau ac ymddiriedaeth** rhwng rhanddeiliaid.
- Mae cyfleoedd i **alinio mentrau meithrin gallu cymunedau arfordirol gyda'r gwaith parhaus i ddatblygu a gwella llythrennedd morol ledled Cymru**. Mae tystiolaeth o arolwg llythrennedd morol Defra, CNC a Marine Scotland yn dangos bod cryn bryder am yr amgylchedd morol ledled Cymru. Fodd bynnag, mae angen dadansoddi rhagor ar y data i archwilio sut mae safbwyntiau a chanfyddiadau'n amrywio yn ôl rhanbarth a nodweddion demograffig eraill (e.e. oedran, rhywedd, ethnigrwydd, lefel addysg) ac i ystyried sut y gellir defnyddio hyn i gael gweld ble mae angen meithrin gallu fwyaf.

Gweithio mewn Partneriaeth

- Er mwyn cyflawni nodau deul Adfer Natur a Thwf Cynaliadwy, **bydd gweithio ar y cyd, nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth a datblygu gweledigaethau ac atebion sy'n seiliedig ar le** ar gyfer y problemau sy'n wynebu cymunedau arfordirol ledled Cymru yn hanfodol. Ni all unrhyw un sefydliad gyflawni'r nodau hyn ar ei ben ei hun, ac mae ysgogi camau sydd wedi'u haddasu i anghenion cymunedau yn gofyn am gydweithio gofalus â'r bobl yr effeithir arnynt.
- Mae gan Gymru rwydwaith gweithgar o sefydliadau a grwpiau sy'n ymwneud â phynciau sy'n gysylltiedig â'i hamgylchedd morol ac arfordirol. Er bod portffolio cyllid a phrosiect, a hirhoedledd, rhai o'r grwpiau hyn, gan gynnwys y ddwy Bartneriaeth Arfordirol yng Nghymru, yn arwydd o lwyddiant, ychydig iawn o dystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi am effaith ac effeithiolrwydd y grwpiau hyn. **Mae angen gwerthusiad cadarn o brosesau a strwythurau presennol**, megis y Partneriaethau Arfordirol neu'r Partneriaethau Natur Lleol, i ddeall yn

well effaith y grwpiau hyn ar gyfer Twf Cynaliadwy ac Adfer Natur, ac i weld lle mae pethau wedi gweithio'n dda a lle y gellid gwneud gwelliannau ar gyfer meithrin gallu cymunedau arfordirol yn y dyfodol. Mae gwersi i'w dysgu hefyd o fframweithiau cyllid presennol neu flaenorol, megis y FLAGS h.y. mabwysiadu dull amlranddeiliad sy'n seiliedig ar le, er mwyn sicrhau y gellir cael consortia sydd â gwybodaeth ac arbenigedd lleol i fynd i'r afael â phroblemau penodol i le, tra bod y bartneriaeth amlranddeiliad yn sicrhau bod lleisiau a safbwyntiau lluosog yn cael eu cynnwys.

- Er bod Cyfeiriadur Arfordirol 2016 a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth Aber Afon Hafren, Fforwm Arfordir Penfro a Phrifysgol Caerdydd yn adnodd defnyddiol – mae wedi dyddio. **Dylid mapio cymunedau a rhanddeiliaid arfordirol Cymru i ddeall lleisiau, safbwyntiau a syniadau pwy sy'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd, a lleisiau, safbwyntiau a syniadau pwy sydd ar goll o'r drafodaeth.** Byddai hyn yn helpu i sicrhau cynrychiolaeth gynhwysol o'r holl randdeiliaid a chymunedau perthnasol, a hefyd yn helpu i nodi lle mae angen mentrau meithrin gallu i feithrin a hwyluso'r gynrychiolaeth honno a'r ymgysylltiad hwnnw. Mae angen amlwg am well dealltwriaeth o bwy yw cymunedau a rhanddeiliaid arfordirol Cymru, gan ystyried ehangder ac amrywiaeth rhanbarthau arfordirol Cymru, a chydabod y gallai hyn, ac y dylai hyn, gynnwys rhanddeiliaid a chymunedau nad ydynt wedi'u lleoli'n uniongyrchol mewn ardal arfordirol ond sy'n effeithio serch hynny ar ardal yr arfordir a'i amgylchedd. Drwy fabwysiadu dull dalgylch-i-arfordir o fapio rhanddeiliaid, mae modd datblygu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'r hyn sydd eisoes yn digwydd, lle mae llwyddiant wedi'i gyflawni a lle gellir dysgu gwersi a'u datblygu. Gyda hyn mewn golwg, argymhellir **diweddarau'r Cyfeiriadur Arfordirol fel cam cyntaf o ran meithrin gallu arfordirol.** Bydd hyn yn sicrhau bod gwell dealltwriaeth o bwy sy'n cael eu cynrychioli ar hyn o bryd a phwy sydd ddim, lleisiau pwy ar goll neu sydd yn hanesyddol wedi eu gwthio i'r cyrion a pha fentrau meithrin gallu penodol sydd eu hangen yn y cymunedau hyn i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Arallgyfeirio ar gyfer Cymunedau Arfordirol Cynaliadwy

- Mae gwydnwch cymunedau ac economïau arfordirol yn wynebu pwysau cynyddol o dirwedd ddeddfwriaethol sy'n newid, costau cynyddol, newidiadau i fynediad i'r farchnad a diffyg newydd-ddyfodiaid i ddiwydiannau morwrol (e.e. pysgota ac ynni adnewyddadwy morol). Gyda'r bwriad o feithrin Twf Cynaliadwy, **gall clystyrau morwrol roi llwyfan i gydweithio rhwng ac ar draws sectorau,** gan ganiatáu i aelodau fanteisio ar ddulliau cydweithredol mewn perthynas â hyfforddiant, datblygu sgiliau, a chyfleoedd newydd yn y farchnad. Mae enghreifftiau llwyddiannus eisoes yn bodoli yng Nghymru, gan gynnwys Ynni Môr Cymru a Chlwstwr Bwyd Môr Cymru. Dylai feithrin gallu cymunedau yn y dyfodol archwilio cyfleoedd eraill i ddatblygu clystyrau a rhwydweithiau morwrol fel ffordd o feithrin cydweithio a thwf economaidd

cynaliadwy ar draws cadwyni cyflenwi a sicrhau gwerth o fewn cymunedau arfordirol.

- Er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o ffurfio clystyrau morwrol, **dylai cyllid yn y dyfodol gynnig opsiynau ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag ystod o feysydd Ymchwil a Datblygu**, gan gynnwys buddsoddiad cyfalaf ar gyfer seilwaith ac offer, cyllid i gefnogi hyfforddiant, a chyllid i ariannu amser pobl i fuddsoddi a datblygu clwstwr fel y gall sicrhau llwyddiant.

Cyllid i'r dyfodol

- **Dylai cyllid i'r dyfodol ar gyfer meithrin gallu cymunedau arfordirol gefnogi parhad a gwaddol prosiectau i sicrhau bod canlyniadau disgwylidig prosiectau a ariennir yn cael eu cyflawni, ac nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan heriau rhaglenni ariannu byrdymor.** Mae ymarferoldeb darparu cyllid hirdymor yn heriol ac yn golygu efallai na fydd hynny'n bosib bob amser. Fodd bynnag, strwythurau ariannu hirdymor yw'r senario ddelfrydol a dyna y dylid anelu ati. Hyd yn oed o fewn rhaglenni ariannu byrdymor presennol, gall parhad, gwaddol, cynllunio tymor hwy a meithrin gallu gael eu cefnogi drwy agor cronfeydd yn y dyfodol i ystod ehangach o weithgareddau cymwys. Gallai hyn gynnwys ariannu mapio cysylltiadau a rhanddeiliaid neu ddadansoddi rhwydwaith i gefnogi cychwyn prosiectau (drwy fentrau cyllid sbarduno, er enghraifft). Mae cyllid i gefnogi parhad gweithgareddau a gwaith etifeddiaeth hefyd yn bwysig i ddarparu gwell parhad a chynyddu effaith prosiectau a chydweithio, yn hytrach na gweld y rhain yn dod i ben pan fydd cyllid prosiect wedi dod i ben, sy'n gallu golygu diffyg adnoddau i gefnogi cyllid staff neu weithgareddau parhaus mewn cymunedau arfordirol. Ar y cyfan, rhaid i'r portffolio cyllid sydd ar gael gefnogi prosiectau o raddfeydd amrywiol ac, os yw'n bosibl, dylai fod mecanwaith cyllido hirdymor neu, yn y man lleiaf, gynllunio hirdymor i sicrhau bod rhaglenni feithrin gallu yn gallu ymateb ac addasu i anghenion sy'n newid o fewn cymunedau.

Dulliau Meithrin Gallu a Dulliau Cydweithio

- **Mae bod yn gynhwysol a chreu ymdeimlad o gydymgysylltu â materion morol ac arfordirol sy'n wynebu cymunedau yn allweddol.** Mae angen mabwysiadu dulliau o meithrin gallu sy'n mynd ati i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid mewn cymunedau arfordirol, gan gynnwys y rhai sydd efallai wedi ymddieithrio neu wedi'u gwthio i'r cyrion yn y trafodaethau hyn, ac sy'n annog nodi meysydd posibl o wrthdaro a chefnogi cydweithio. Mae dulliau cyfranogol, megis mapio cyfranogol, dulliau llais y gymuned, ymchwiliad sy'n seiliedig ar asedau a dulliau eraill sy'n ceisio nodi cryfderau cymunedol, cefnogi datrys gwrthdaro a meithrin cydweithio yn allweddol.

- Nid oes **un ateb addas i bawb ac mae angen sicrhau bod prosiectau meithrin gallu yn ymateb i anghenion y gymuned ac y gellir eu datblygu mewn ffyrdd sy'n adeiladu ymddiriedaeth a chyfalaf cymdeithasol a meithrin cydweithrediadau newydd** rhwng sectorau a phynciau sydd wedi cadw ar wahân yn draddodiadol, gan alluogi integreiddio ac alinio nodau deol Adfer Natur a Thwf Cynaliadwy yn well.
- **Dylai dulliau meithrin gallu gael eu monitro a'u gwerthuso** i ddangos eu heffaith a'u heffeithiolrwydd mewn perthynas â datrys gwrthdaro a chydweithio o fewn cymunedau i ddarparu sylfaen dystiolaeth ehangach ar gyfer dysgu a rennir ledled Cymru.

GWEITHDAI TYSTIOLAETH RHANDDEILIAID

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Lluniwyd rhestr fer o ddulliau a phriodoleddau allweddol ar gyfer prosiectau, sy'n llwyddo i feithrin gallu mewn cymunedau arfordirol, gan ddefnyddio'r dysgu a rannwyd yn y ddau weithdy. Er i gyfranogwyr y gweithdai gyflwyno amrywiaeth o brofiadau, roedd consensws clir ymhlith pawb yn y ddau weithdy bod y pum pwynt canlynol yn benderfnyddion pwysig o lwyddiant. Felly, rydym yn argymhell y dylai'r dulliau a'r priodoleddau hyn gael eu ceisio a'u cefnogi drwy ymyriadau'r llywodraeth ac ymyriadau ehangach. Nid ydynt wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth.

DULLIAU ALLWEDDOL

1. **Sicrhau canlyniadau drwy weithio ar draws ffiniau a defnyddio dull cydgysylltiedig o ddatrys problemau.** Mae hyn yn cynnwys gweithio ar draws ffiniau morol/daearol a gweinyddol a nodi'r holl gysylltiadau a phobl sy'n berthnasol i'w hystyried ar gyfer y mater(ion) dan sylw.
2. **Sicrhau ymdeimlad o ymwneud ymhlith pawb, drwy fod yn gynhwysol ac ymateb i anghenion a nodir mewn cymunedau.** Mae hyn yn gofyn am ymddiriedaeth a phrosesau democrataidd, yn ogystal â negeseuon cyfathrebu da. Mae sicrhau cynrychiolaeth amrywiol hefyd yn allweddol. Mae gweithio gydag arweinwyr cymunedol yn ddefnyddiol yma, ond mae hi'r un mor bwysig cefnogi diwylliant ehangach o wirfoddoli ac ymgysylltu er mwyn sicrhau bod cymunedau'n gallu cymryd rhan yn llawn.
3. **Sicrhau cynaliadwyedd ariannol** drwy alluogi datblygu sgiliau ac arloesi i fanteisio ar gyfleoedd mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg. Hefyd, drwy ddefnyddio strwythurau prosiect priodol e.e. CIC a meithrin ymrwymiad i brosiectau drwy weithgareddau a/neu fuddsoddiad gan fusnesau sydd â manteision amlwg i gyfranogwyr.
4. **Gweithio ar y raddfa briodol**, sy'n ddigon bach i gymunedau gymryd rhan, gan sicrhau ymddiriedaeth a pherthnasedd iddynt, ond sy'n cyflawni canlyniadau hanfodol yn unol ag ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. I wneud hyn, mae angen strwythurau rhwydwaith a hwyluso da.
5. **Cynnal parhad rhwng prosiectau** fel y gellir meithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid a rhannu dysgu, gan gyflwyno arferion da yn ehangach fel ein bod yn adeiladu ar brofiadau'r gorffennol. Mae hyn yn rhoi gwerth ar lwyddiannau blaenorol, yn hytrach nag ar arloesi yn unig.

Datblygwyd rhestr estynedig o ganllawiau a chyngor i ddarpar brosiectau hefyd drwy ymarfer terfynol y gweithdai, a oedd yn ceisio cyfodod trafodaethau ar yr hyn sy'n gweithio a pham, a beth arall sydd ei angen i sicrhau llwyddiant wrth edrych i'r dyfodol. Fel yn achos y rhestr fer, roedd yna gryn dipyn o gonsensws ynglŷn â'r pwyntiau a gyflwynwyd. Mae'r canllawiau estynedig hyn yn rhoi syniad o sut i

weithio'n fwyaf effeithiol gyda chymunedau, pa nodweddion i'w blaenoriaethu yn eich prosiectau a'ch staff, pwy sydd angen bod yn rhan o'r broses, pa gymorth a allai fod ei angen, a sut i fonitro a gwerthuso gweithgareddau yn ddefnyddiol. Mae'r cyngor yma ar gyfer arweinwyr prosiectau'r dyfodol, ond gellir ei ddarllen hefyd fel cyngor i gyllidwyr a'r llywodraeth ar yr hyn y dylent fod yn ei annog a'i gefnogi.

CYNGOR AR GYFER PROSIECTAU MEITHRIN GALLU

1. Pa ddulliau sy'n gwneud prosiectau'n llwyddiannus?

Parhad, i alluogi cymunedau i ddatblygu ymddiriedaeth mewn sefydliadau, teimlo ymdeimlad o ymrwymiad tymor hwy, a meithrin cysylltiadau â phobl unigol (e.e. staff y prosiect). Dylid parhau â'r 'hyn sy'n gweithio', ei rannu a'i ehangu yn hytrach na bod prosiectau yn ceisio 'arloesi' drwy'r amser.

Strwythurau a systemau ar waith fel nad yw prosiectau'n ysbeidiol neu'n dameidiog. Er enghraifft, byrddau rheoli gwahanol grwpiau llywio prosiect (fel gyda'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a Phartneriaeth Aber Afon Hafren) a/neu Gwmni Buddiannau Cymunedol, sy'n rhedeg mwy fel busnesau ac yn parhau y tu hwnt i brosiectau unigol (e.e. Fforwm Arfordir Penfro).

'Cryfder mewn niferoedd' – gall maint prosiect ei gadw i fynd. Er enghraifft, pan fydd gennych lawer o wahanol weithgareddau/partneriaid ar waith i alluogi parhad, yn enwedig pan fydd y rhain yn cael eu cefnogi drwy wahanol ffyrddiau incwm. Gall rhwydweithiau amrywiol gefnogi ei gilydd hefyd, gyda gwahanol fathau o sefydliadau yn ymgymryd â gwahanol rolau a gweithgareddau, fel sydd fwyaf addas i'w galluoedd. Gall cysylltu 'ecosystem' o brosiectau cysylltiedig fod yn ddefnyddiol hefyd. Yn yr un modd, os yw llawer o bobl yn cymryd rhan, mae prosiectau'n datblygu momentwm, gan fod pobl eisiau bod yn rhan o'r digwyddiad oherwydd y bwrlwm cymdeithasol.

Defnyddio strwythurau prosiect hunangynhaliol, megis Cwmnïau Buddiannau Cymunedol. Gyda CIC, mae prosiectau'n cael eu rhedeg gan weithwyr cyflogedig sy'n diogelu eu hymrwymiad a'u gallu ac yn golygu bod recriwtio gweithwyr newydd i gymryd eu lle os oes angen. Mae hyn yn lleihau dibyniaeth llwyddiant ar un neu ddau unigolyn, yn enwedig os ydynt yn wirfoddolwyr. Mae hyn yn cefnogi'r parhad a restrir uchod.

Gweithgareddau hunangynhaliol yw'r rhai sydd wedi sicrhau ymrwymiad gan gyfranogwyr, naill ai o ran diddordeb mewn gweithgareddau neu ymrwymiad ariannol. Mae pobl yn dal ati i wneud pethau y maent yn hoffi eu gwneud (h.y. pethau sy'n hwyl, yn gymdeithasol) pan maent yn gweld canlyniadau, neu os yw'r pethau hynny o fudd iddynt (e.e. gwyddoniaeth dinasyddion, dysgu mwy am eu darn o arfordir; diwallu angen craidd, megis mynediad i bobl anabl; arwain teithiau cerdded/gweithgareddau cadwraeth).

Gall gweithgareddau sy'n manteisio ar farchnadoedd newydd/cyfleoedd ar gyfer arloesi, waeth pa mor fach ydynt, helpu i fod yn hunangynhaliol hefyd. Gall uno buddiannau busnesau bach a/neu fentrau cymdeithasol fod yn ddefnyddiol yma. Gall cael pobl sydd â sgiliau busnes/datblygu i gymryd rhan helpu i gefnogi'r mathau hyn o weithgareddau. Gall cyllid sbarduno/cyfalaf syml ar gyfer seilwaith allweddol alluogi busnesau newydd/gwella busnesau yn yr un modd.

Prosiectau sydd â phresenoldeb yn y gymuned. Gall cyswllt un i un fod yn werthfawr iawn i rai pobl a gall fod yn fwy teg ac effeithiol na chyfarfodydd cyhoeddus sy'n gallu bod yn fwy 'gwleidyddol'. Mae angen neilltuo adnoddau ar gyfer hyn. Gall llefarwyr hygyrch yn y gymuned hefyd ddarparu negesuon cyfathrebu clir (ac uniongyrchol), gan fynd i'r afael â chamwybodaeth h.y. rhagdybiaethau ac ofnau am yr hyn y gallai prosiect ei olygu.

Mae **hwyluswyr a chyfryngwyr** rhwng cymunedau a grwpiau eraill/cyllidwyr/llywodraeth yn bwysig, gan alluogi cysylltiadau rhwng buddiannau/cyfleoedd ar lawr gwlad ac amcanion strategol.

Dathlu llwyddiannau'n gyhoeddus ar draws ystod o gyfryngau/sianeli. Mae gan bobl ddiddordeb yn yr hyn y mae prosiectau eraill yn ei wneud, felly mae rhannu'r wybodaeth hon yn beth da.

2. Pwy sydd angen bod yn rhan o brosiectau yn y dyfodol?

Mae defnyddio strwythurau a phrosesau sefydledig er mwyn cynnwys pobl, gan ddatblygu cysylltiadau ac ymgysylltu â phrosiect, er enghraifft, drwy gymdeithasau cymunedol, clybiau ieuenctid a grwpiau gwirfoddoli, yn gweithio'n dda.

Mae prosiectau da yn siarad ag ystod eang o bobl, yn cynnwys demograffeg eang. Mae'n bwysig ystyried amrywiaeth y gymuned a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn prosiectau. Dim ond drwy ystyried pob barn wrth ddatblygu prosiectau y gellir sicrhau proses ddemocrataidd.

Dulliau o'r gwaelod i fyny sy'n cael eu harwain gan y gymuned yw'r dulliau delfrydol ar gyfer datblygu prosiectau. Gall dulliau o'r brig i lawr weithio ond mae angen i staff y prosiect weithio gyda phobl mewn modd ystyrlon, gan gydgyhyrchu'r prosiect lle bo hynny'n bosibl, yn hytrach na dim ond ymgynghori.

Mae **gweithio ar raddfeydd priodol sy'n ystyrlon** i'r canlyniad a ddymunir yn bwysig, yn lle gweithio i ffiniau gweinyddol. Mae gweithio ar raddfa buddiannau cymunedol yr un mor bwysig, gan sianelu'r brwdfrydedd presennol yn hytrach na dod i mewn gydag amcanion strategol. Gall hwyluswyr da gysylltu â'r rhain yn ôl yr angen. Mae hyn yn golygu bod â hyblygrwydd i fod yn adweithiol i'r hyn sydd ei angen, heb gael eu gorchymyn gan 'gronfa'. Rhaid i brosiectau olygu rhywbeth i'r gymuned a'r lle.

Mae arweinwyr cymunedol yn allweddol i ymgysylltu â'r gymuned ehangach a gallant alluogi gweithgareddau 'hunangynhaliol'. Mae'n bwysig adnabod, hwyluso a gweithio gyda'r unigolion hyn. Nid dim ond y rhai mewn swyddi ffurfiol o bŵer ydynt, ac nid oes ganddynt hanes o lwyddiant bob amser. Gall 'arweinwyr' newydd ddod i'r amlwg yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Felly, mae angen rhwydweithio prosiectau a cheisiadau am gyllid yn eang.

Mae gwirfoddoli yn ymrwymiad ac mae angen ei gefnogi/gydnabod er mwyn sicrhau bod modd cynnal gweithgarwch cymunedol. A allai busnesau/cyflogwyr gefnogi hyn i wella gwirfoddoli cymunedol?

Mae angen i swyddogion prosiect fod yn ddibynadwy ac yn adnabyddus i fod yn llwyddiannus, sy'n cymryd amser. Yn ddelfrydol, dylid eu hystyried ar wahân i fuddiannau breintiedig.

Mae rhanddeiliaid yn teimlo nad yw cystadlu am gyllid yn erbyn pobl a ddylai fod yn gydweithwyr yn ddefnyddiol, ac maent am geisio adeiladu partneriaethau yn lle hynny.

Bydd prosiectau da yn sicrhau dulliau cyfannol, gan uno lle mae'n gwneud synnwyr i'r mater wrth law, er enghraifft, cysylltu'r daearol a'r morol, neu weithio ar draws ffiniau gweinyddol/gwleidyddol. I fod yn effeithiol, mae angen i ni gysylltu pawb sy'n cael effaith. Er enghraifft, mae angen i'r sector twristiaeth gymryd mwy o ran gan nad yw'n glir ei fod yn deall ei effaith ar ecosystemau morol.

Ystyried pa sgiliau a phriodoleddau sydd eu hangen ar brosiect a sut i gael gafael arnynt. Dylech gael pobl berthnasol i gymryd rhan i hwyluso hyn, er enghraifft, ymddiriedolaethau datblygu/arweinwyr busnes, cwmnïau ynni adnewyddadwy neu brifysgolion ar gyfer mewnbwn technegol. Gall hyn alluogi prosiectau i ddod yn hunangynhaliol.

3. Pa gymorth sydd ei angen ar brosiectau/rhanddeiliaid?

Mae ymrwymiad hirdymor i gyllid yn bwysig i lwyddiant. Fel arall, gall prosiectau golli momentwm, ymddiriedaeth a chysylltiadau o fewn y gymuned. Mae parhad cyllid hefyd yn caniatáu i staff ddatblygu eu gyrfa a rhoi cymhelliant iddynt aros; fel arall, gallwch golli pobl brofiadol.

Hoffai rhanddeiliaid gael cynllun cyllid y dyfodol ar gyfer Cymru gyfan yn amlinellu strategaeth hirdymor y gallant gynllunio eu gweithgareddau yn unol â hi. Hoffent wybod hefyd lle mae angen buddsoddiad ar gyfer prosiectau, er enghraifft, drwy gynllun datblygu gofodol morol estynedig sy'n dangos yr hyn mae angen i ni wneud lle ar ei gyfer yn ein cefnforoedd a pha ardaloedd sydd angen eu diogelu / eu hadfer.

Mae'r ffenestri ariannu yn eithaf tynn. Byddai rhanddeiliaid yn elwa ar fwy o flaengynllunio / hysbysiadau ynghylch ffenestri'r dyfodol (gan gysylltu â'r pwynt uchod am strategaeth hirdymor). Mae ffenestri sy'n gymesur â maint y gronfa yr un mor bwysig h.y. mae cronfeydd mwy o faint yn cymryd mwy o amser i baratoi cais ar eu cyfer.

Mae rhanddeiliaid eisiau prosesau syml sy'n eu galluogi i roi syniadau ar waith a pheidio â chael eu 'boddi' mewn gwaith papur. Er enghraifft, prosesau ymgeisio priodol sy'n syml ar gyfer cronfeydd llai o faint / sbarduno.

Byddai mwy o gyfranogiad gan gyllidwyr yn ystod prosiectau a gwell argaeledd/mynediad mewn perthynas â'r cynrychiolwyr hyn h.y. llinellau cyfathrebu uniongyrchol, yn cael eu croesawu gan rhanddeiliaid.

Mae mynediad at sgiliau, er mwyn manteisio ar seilwaith/cyfleoedd newydd, yn bwysig ar gyfer cymunedau arfordirol. Er enghraifft, mae ariannu hyfforddiant sgiliau lleol ar gyfer y sector ynni wedi bod yn fuddiol. Mae angen galluogi cymunedau i nodi'r sgiliau/cymorth sydd eu hangen arnynt (e.e. mynediad i bobl anabl).

Mae awydd am 'Sioe Forol Frenhinol Cymru' - er mwyn gallu codi ymwybyddiaeth, rhannu mewnwelediadau, cysylltu pobl a gwella llythrennedd morol.

4. Sut y dylid monitro prosiectau?

Allbynnau meddalach h.y. mesurau ansoddol – bellach yn cael eu defnyddio mewn llawer o brosiectau datblygu gwledig, sy'n darparu enghraifft dda i'w dilyn. Er enghraifft, cofnodi ansawdd yr ymgysylltu â phrosiectau, yn hytrach na maint yr ymgysylltu, a chanolbwyntio ar straeon personol. Mae dulliau arloesol yn ddefnyddiol hefyd, er enghraifft, lluniau o'r cyfnod cyn ac ar ôl gweithgarwch, i ddangos effaith.

Gall rhai mesurau meintiol fod o gymorth i ddarparu strwythur i adroddiadau, ond maent yn offer aneffeithiol. Nid oes modd cymharu pob mesur meintiol, mae'r cyd-destun yn hanfodol e.e. swyddi sy'n cael eu creu mewn lleoliadau gwledig anghysbell yn erbyn lleoliadau trefol - gallai nifer fach o swyddi mewn lleoliad gwledig fod yn bwysig iawn a chael effaith eang.

Dylai unrhyw arolwg fod yn ddewisol/gwirfoddol (yn enwedig arolwg sy'n cwmpasu demograffeg e.e. ethnigrwydd). Dylech ddefnyddio naws bersonol - 'sut byddech chi'n disgrifio'ch cefndir?'. Ni ddylech gasglu gwybodaeth am amrywiaeth os na fyddwch yn ei defnyddio h.y. ymrwmo i wneud newidiadau ar sail yr wybodaeth.

Mae angen monitro ar ôl gweithredu er mwyn cofnodi effeithiau parhaus. Ar hyn o bryd, mae'r cyllid ar gyfer monitro yn dod i ben pan fydd prosiect yn gorffen.

Angen galluogi pobl i ddysgu o fethiant. Gall Dangosyddion Perfformiad Allweddol arwain at amharodrwydd i gymryd risg, gyda chanfyddiad na allwch chi fetu oherwydd y risg o beidio â chael y prosiect nesaf.

Galluogi rhannu arferion da a dysgu ganddynt. Byddai cronfa ddata/cofnod gofodol o brosiectau/adroddiadau yn ddefnyddiol fel adnodd i ymgeiswyr ac adolygwyr/archwilwyr i helpu pobl i ddysgu o brosiectau eraill, rhannu llwyddiannau a deall beth sy'n digwydd ble i gysylltu prosiectau tebyg. Byddai adnodd penodol ar gyfer rhwydweithio a rhannu yn ddefnyddiol gan nad oes gan bobl amser/gallu i rannu dysgu/gwybodaeth o brosiectau.

Parhau gyda'r hyn sy'n gweithio - mae rhwystredigaeth bod 'dulliau newydd ac arloesol' yn cael eu ffafrio wrth ragnodi cyllid. Mae rhanddeiliaid yn gwybod beth sy'n gweithio. "Mae jest angen i ni wneud llawer iawn mwy ohono." A ellid addasu'r monitro a'r broses ymgeisio am gyllid i adlewyrchu hyn?

